❖ Ymladd ym Methlehem

Nid y bugeiliaid wrth eu meysydd
yn dilyn seren
at frenin heddwch heddiw,
ond bomiau a thanciau
yn gwarchod cyrion Bethlehem.

Teuluoedd heb ddim
yn gaeth yn eu cartrefi nid ar daith,
dan warchae rhag cael eu saethu
ar y strydoedd.

A Christ
yr hen deithiwr
ar hyd y meysydd hyn
yno yn amlwg yn ei breseb drachefn,
gan fod hwn eto
yn ddydd pan nad oes lle yn y llety,
a gwarchae ar y gwir.